# TAFLEN NEWYDDION CYMUNEDOL
# LLANDYFAELOG
# COMMUNITY NEWSLETTER



## CYFLWYNIAD / INTRODUCTION

Croeso i Rifyn Gwanwyn Daflen Newyddion Chwarterol Cymunedol Llandyfaelog.

Cyhoeddir y Daflen Newyddion trwy'r Wefan Gymunedol www.llandyfaelog.org.uk, ond os hoffech gael eich cynnwys ar y rhestr dosbarthiad trwy e-bost, cysylltwch ag Arfon Davies Clerc Cyngor Cymuned Llandyfaelog Llandyfaelog@btinternet.com

Er eich gwybodaeth mae'r rhannau Gymraeg o'r Cylchlythyr mewn coch â'r Saesneg yn glas.

Bydd y Clerc yn hapus i dderbyn eich sylwadau neu erthyglau ar gyfer y Rhifyn nesaf.

Welcome to the Spring Edition of the Llandyfaelog Quarterly Community Newsletter.

The Newsletter is published on the Community Website www.llandyfaelog.org.uk, however if you would like to be included on the email distribution list, please contact Arfon Davies, Llandyfaelog Community Council Clerk Llandyfaelog@btinternet.com

For ease of reference the parts of the Newsletter in Welsh are in red with the English in Blue.

The Clerk will be happy to receive your comments or articles for the next Edition.

## Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council

| **Dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor** | **Council Meeting Dates** |
|---|---|
| 14 Mai 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog (Cyfarfod Blynyddol) | 14 May 7.30pm, Llandyfaelog Hall (Annual Meeting) |
| 4 Mehefin 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 4 June 7.30pm, Llandyfaelog Hall |
| 2 Gorffennaf 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 2 July 7.30pm, Llandyfaelog Hall |

Gellir gweld cofnodion ac agenda cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn
Cyfarfod, Agenda a Chofnodion – Llandyfaelog Community Council – Cym (visionict.com)

Community Council minutes and meeting agenda can be found at
Meetings, Agendas and Minutes – Llandyfaelog Community Council – Eng

**Pwyllgor Neuadd Cymunedol
Llandyfaelog
Community Hall Committee**

Ysgrifennydd / Secretary: Arfon Davies
Maesmawr
Glan-y-Fferi / Ferryside
Caerfyrddin / Carmarthen
SA17 5YD
Ffôn / Tel: 01267 267647
Ebost / Email: Llandyfaelog@btinternet.com
Gwefan / Website: www.llandyfaelog.org.uk

**1 Ebrill 2026**

**Cynhelir cyfarfod blynyddol Pwyllgor Neuadd Cymunedol Llandyfaelog ar Nos Iau, 16 Ebrill 2026 am 8.00y.h. yn Neuadd Llandyfaelog.**

**Mae gan pob trigolyn dros 18 mlwydd oed yr hawl i fynychu y cyfarfod ac i bleidleisio ynddo.**

**Arfon Davies
Ysgrifennydd**

**1 April 2026**

**The AGM of the Llandyfaelog Community Hall Committee will be held Thursday, 16 April 2026 at 8.00pm at Llandyfaelog Hall.**

**All inhabitants of the area over the age of eighteen years are entitled to attend and vote at the meeting.**

**Arfon Davies
Secretary**

**Clwb 100 Club**

Mae Clwb 100 Blynyddol Neuadd Gymunedol Llandyfaelog wedi'i lansio gydag aelodaeth ar gael gan holl aelodau Pwyllgor y Neuadd. Y gost yw £10 y flwyddyn. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Susan Williams, Andrea Bennett neu Arfon Davies. Y dyddiad cau ar gyfer aelodaeth am y flwyddyn fydd dechrau mis Mehefin.

The Llandyfaelog Community Hall Annual 100 Club has been launched with membership available from all Hall Committee members. The cost is £10 per annum. For more details, contact Susan Williams, Andrea Bennett or Arfon Davies. The closing date for membership for the year will be in early June.

**Clwb Bowlio Llandyfaelog Bowls Club**

Llongyfarchiadau i Luke ac Osian Davies a gynrychiolodd dîm dan 21 Cymru yn ei buddigoliaeth yn Erbyn Lloegr ar y 28ain Mawrth.

Congratulations to Luke and Osian Davies who represented the Wales U21 side in their victory against England on the 28th March.



Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council

## Cystadleuaeth Gardd Gymunedol

Mae'r Cyngor Cymuned yn cynnal cystadleuaeth i ddod o hyd i erddi orau'r Gymuned. Hoffem dderbyn eich enwebiadau am yr ardd gorau i'r Clerc.

Mae yna bedwar categori - Ardd Blodau Blychau, Ardd Blodau Bach, Ardd Blodau Mawr a Gardd Llysiau

Bydd yr erddi llysiau enwebedig yn cael eu barnu yn ystod mis Mehefin, gyda gerddi flodau ar ddechrau Mis Awst.

Bydd yna noson gwobrwyo yn cael ei gynnal yn ystod Mis Awst.

Fwy o wybodaeth i ddilyn, enwebiadau i'r Clerc erbyn diwedd mis Mai os gwelwch yn dda.

Gwobr o £25.00 i enillydd pob categori a £50.00 i'r ardd orau yn gyffredinol.



## Community Garden Competition

The Community Council is holding a competition to find the best gardens in the Community. Please provide nominations to the Clerk for the best garden.

There are four categories – Container Garden, Small Flower Garden, Large Flower Garden and Vegetable Garden.

The nominated vegetable gardens will be judged in June with the flower gardens in early August.

A prize giving evening will be held in mid-August.

More information to follow, please send nominations to the Clerk by the end of May.

£25.00 prize for each category winner and £50.00 for the best overall garden.

## JOIN US FOR A

# QUIZ
# CWIS

**TEST YOUR KNOWLEDGE!**

## FRIDAY, 24 APRIL

**7.30 PM IN LLANDYFAELOG HALL**

**7.30 YH YN NEUADD LLANDYFAELOG**

LIGHT REFRESHMENTS AND BAR

## £20 FOR TEAM OF 4
## £20 AM DÍM O 4

**DYDD GWENER,
24 EBRILL**

**PROCEEDS TO ST MAELOG CHURCH**
**ELW AT EGLWYS ST MAELOG**

# Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog 2026

Cynhaliwyd eisteddfod lwyddiannus iawn yn Neuadd Llandyfaelog ar ddydd Sadwrn, Chwefror 7fed. Y beirniaid eleni oedd :- Cerdd – Ffion Haf Jones, Llanfynydd; Llefaru a Dawns – Daniel O'Callaghan, Pwll Trap; Llên – Emyr Davies, Aberporth; Celf a Thechnoleg – Catrin Reading, Glanyfferi.

Bu Jonathan Morgan, Y Tymbl (piano) yn cyfeilio ar gyfer y cystadlaethau lleol ac agored.

Llywydd prynhawn yr eisteddfod eleni oedd Mrs Kath Williams, Llandyfaelog – un sydd wedi cefnogi'r Eisteddfod yn frwd dros y blynyddoedd. Llywydd y nos oedd Elfyn Williams, Idole, un sy'n gefnogol i'w gymuned ers dros nifer fawr iawn o flynyddoedd. Diolch yn fawr iawn i'r llywyddion am eu rhoddion ariannol hael a charedig.

Ni fyddai modd cynnal yr Eisteddfod heb gefnogaeth hael ein noddwyr sy'n cynnwys Cyngor Sir Gaerfyrddin, Ymddiriedolaeth Pantyfedwen, Menter Gwendraeth Elli, Cynghorau Cymuned Llandyfaelog, Llangyndeyrn a Llangynnwr a Gerallt Lewis Pianos. Mae gwobrau blynyddol hefyd o Gronffa Goffa Dr Ron a Mrs Betty Rees, Oaklands, Cwmffrwd; Teulu Trelimsey er cof am John a Nan Anderson a gwobrau coffa am Geraint Rees, Caeralaw. Hefyd derbyniwyd nawdd gan yr athro piano o Gydweli, Jonathan Hawkins a Delyth Thomas a'r teulu a gyflwynodd rhodd er cof am ei merch, Nia-Wyn John.

Enillwyd Cadair yr Eisteddfod gan Siw Harston, Staines, Middlesex ac yn wreiddiol o Landeilo. Testun y cywydd eleni oedd "Cwlwm". Roedd y gadair hardd yn rhoddedig gan deulu Jones, Cilfaethy Uchaf, Llandyfaelog. Enillwyd Tlws yr Ifanc gan Rebecca Rees, Bwlchyfadfa, Talgarreg, Llandysul a chyflwynwyd y fedal a'r wobr ariannol gan Rhiannon Roberts, Cwmffrwd.

Cyflwynwyd Cwpan Coffa John a Nan Anderson, Trelimsey i Morus Jones, Ysgol Llangynnwr, am fod y cystadleuydd lleol o dan 11 oed sydd yn dangos yr addewid fwyaf. Cyflwynwyd Ysgoloriaethau Dr. Ron a Mrs. Betty Rees i'r cystadleuydd gorau yn lleol o dan 16 oed i Michael Thomas, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin (cerddoriaeth) ac i Sianco Davies, Ysgol Llangynnwr (llefaru). Cyflwynwyd Tarian Goffa Geraint Rees, sef y darian her ynghyd â'r wobr ariannol o £100 i'r ysgol leol uchaf ei marciau i Ysgol Llangynnwr.

Mae aelodau'r pwyllgor yn gwerthfawrogi pob cyfraniad a chefnogaeth tuag at lwyddiant yr eisteddfod. Dyma restr o'r buddugol ymhob cystadleuaeth.

**CERDD** (lleol)
Unawd Bl. 1 a 2 – 1. Nyah Smith, 2. Ela Fflyr Millard, 3.Sianco Davies; Unawd Derbyn ac iau – 1. Martha Rudland; Unawd Bl. 3 a 4 – 1. Greta Wyn, 2. Isla Jones, 3. Erin Howells; Unawd Bl. 5 a 6 – 1. Alaw Evans, 2.Cydradd: Bronwen Symmons, Gwenllian Jones, 3. Beca Davies; Unawd Piano Bl.6 ac iau – 1. Heidi Davies, 2. Jac Jones, 3. Finn Scaife; Unawd offeryn cerdd ysgolion cynradd – 1. Morus Jones, 2. Beca Davies; Unawd cerdd dant Bl. 6 ac iau – 1. Gwenllian Jones, 2. Cydradd: Bronwen Symmons, Greta Wyn 3. Ilan-Rhun Phillips; Unawd alaw werin Bl. 6 ac iau – 1. Bronwen Symmons, 2. Gwenllian Jones, 3. Alaw Evans; Parti Unsain Bl. 6 ac iau – 1.Parti Sgorio Gol, Llangynnwr, 2. Parti Bl1-3 Llangynnwr, 3. Grŵp y caribi; Unawd Goffa Geraint Rees, emyn Bl. 6 ac iau – 1. Ilan-Rhun Phillips, 2. Gwenllian Jones, 3. Alaw Evans; Unawd Bl.7 ac o dan 19 – 1. Enfys Jones; Unawd offeryn cerdd Bl. 7 ac o dan 19 oed – 1. Michael Thomas, 2. Enfys jones; Unawd alaw werin Bl.7 ac o dan 19 – 1. Enfys Jones.

**DAWNS** (lleol)
Grŵp dawns stepio/gwerin – 1. Llangynnwr Bl.3, 2. Llangynnwr Bl.1+2.

**LLEFARU** (lleol)
Llefaru Bl. 1 a 2 – 1. Sianco Davies, 2. Idris Owen, 3. Rhydian Davies; Llefaru Derbyn ac iau – 1. Martha Rudland; Llefaru Bl. 3 a 4 – 1. Greta Wyn, 2. Cydradd: Gwenllian Davies, Ilan-Rhun Phillips, 3. Ava Davies; Llefaru Bl. 5 a 6 – 1. Gwenllian Jones, 2. Tomos Wyn Cooper, 3. Beca Davies; Llefaru Bl.7 ac o dan 19 – 1. Enfys Jones

**CERDD** (agored)
Unawd Bl. 1 a 2 neu iau – Hafanna Bennet-Havard; Unawd Bl. 3 a 4 – Greta Wyn; Unawd cerdd dant Bl. 6 ac iau – Bronwen Symmons; Unawd alaw werin Bl. 6 ac iau –Bronwen Symmons; Unawd emyn Bl. 6 ac iau – Gwern Bowen; Deuawd Bl.6 ac iau – Gwenllian Jones/Bronwen Symmons; Unawd Bl. 7 – 9 – Enfys Jones; Unawd cerdd dant Bl. 7 ac o dan 19 oed – Gwion Bowen; Unawd emyn Bl. 7 ac o dan 19 oed – Alwena Owen; Unawd alaw werin Bl. 7 ac o dan 19 Celyn Richards; Unawd piano/offerynnol dan 19 – Alwena Owen; Unawd Bl.10 ac o dan 19 – Celyn Richards;
Unawd sioe gerdd o dan 30 oed – Seren Weston; Unawd dan 30 oed – Luke Rees; Parti/côr mudiadau lleol – Eglwys Sant Maelog; Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru – Côr Seingar; Unawd goffa Geraint Rees emyn agored – David Mayberry; Her unawd – David Mayberry; Cenwch i'm yr Hen Ganiadau – David Mayberry.

**LLEFARU** (agored)
Llefaru Bl. 1 a 2 neu iau – Hafanna Bennet-Havard; Llefaru Bl. 3 a 4 – Gwern Bowen; Llefaru Bl.10 ac o dan 19 – Gwion Bowen; Cystadleuaeth ar gyfer mudiadau lleol – llwyfannu eitem dim mwy na 8 munud – Clwb Gwawr Maelof; Her adroddiad dan 30 oed – Gwion Bowen; Adroddiad/llefaru digri agored – Seren Weston; Darllen darn o'r Ysgrythur ar y pryd, dros 19 – Helen Phillips.

**LLENYDDIAETH**
Y Gadair – Siw Harston, Staines, Middlesex, Llundain; Tlws yr Ifanc – Rebecca Rees, Bwlchyfadfa, Talgarreg; Englyn – Siw Harston, Staines, Middlesex; Gorffen Limrig – Myfanwy Roberts, Llanrwst; Blwyddyn 10 ac o dan 19 oed, Stori Fer 'Siom' – Beca Elen Curry, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin; Blwyddyn 7 – 9, Erthygl ar gyfer papur bro am gymeriad lleol – Efa Dixon, Ysgol Bro Teifi; Bl. 1-6 ysgolion cynradd lleol – Llythyr diolch i athro/athrawes – Beca Davies.



**Llun Bardd y Gadair 2026**
Mae’r llun yn dangos Bardd y Gadair 2026 Siw Harston ac Enillydd Tlws y Llenor Ifanc, Rebecca Rees, gyda’r beirniad llên Emyr Davies, aelodau’r Orsedd a noddwyr y cystadlaethau llên.



**Llun cyflwyniad**
Gary Anderson yn cyflwyno Cwpan Coffa John a Nan Anderson, Trelimsey i Morus Jones, Ysgol Llangynnwr,  i’r cystadleuydd lleol ym Mlwyddyn 6 cynradd ac iau sy’n dangos yr addewid fwyaf.



**Llun cyflwyniad**
Gary Anderson yn cyflwyno Cwpan coffa Geraint Rees i Ilan-Rhun Phillips, Ysgol Llangynnwr, am ennill y gystadleuaeth Her Unawd Goffa Geraint Reees, Emyn Bl 6 ac iau yn yr adran leol.



Cor Seingar – enillwyr Cystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru yn Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog eleni.



Cor Tonic – ddaeth yn ail yn y Gystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru yn Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog eleni.



Cynrychiolwyr o Ysgol Gynradd Llangynnwr yn derbyn Tarian Coffa Geraint Rees a rhodd o £100 am yr Ysgol leol uchaf ei marciau yn Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog eleni.